Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 10 Medi 2018 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

25. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

26. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

27. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018 yn gywir.*

28. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

29. COED AR SGWÂR SANT PEDR
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr angen i docio'r coed ac ailosod y goleuadau LED.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda'r Dr. Peter Spencer am gyngor ynghylch yr adeg gorau i gynnal y gwaith.*

30. TORRI GLASWELLT
Ystyriodd yr aelodau gefndir cyfrifoldebau torri glaswellt Cyngor Tref Rhuthun a rhesymoli posibl.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ddinbych i drafod addasrwydd toriad bioamrywiaeth ar gyfer ardaloedd torri glaswellt Cyngor Tref Rhuthun a chysylltu gyda'r cyn Glerc i gael gwell dealltwriaeth ynghylch yr ardaloedd torri glaswellt mae Cyngor Tref Rhuthun yn gyfrifol amdanynt.*

31. DIWEDDARIAD AR GRŴP TREF TACLUS RHUTHUN
Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad am y trefniadau ar gyfer y Grŵp, sef bod achlysur lansio i'w gynnal yn y Manorhaus am 5.30pm nos Fercher, 12 Medi, gyda'r sesiwn dacluso gyntaf i'w gynnal ddydd Sul – yr amser i'w benderfynu yn y cyfarfod lansio. Roedd gwregysau gweledded uchel a deunyddiau garddio, glanhau a phaentio wedi eu prynu a byddai'r Cynghorydd Harris yn casglu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan gwmni yswiriant y Cyngor Tref ac yn llunio asesiadau risg ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

32. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 8 Hydref 2018 am 7:30pm.*